ARIAN I BAWB

AWARDS FOR ALL

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

Cymru

URN:
At ddefnydd swyddfa'n unig

Ffurflen gais

Defnyddiwch y ffurflen hon i ymgeisio i Arian i Bawb.

Cyn i chi ddechrau llenwi'r ffurflen hon sicrhewch eich bod wedi darllen y canllaw ymgeiswyr yn ofalus.

Hefyd mae nodiadau cynorthwyol wrth bob cwestiwn sy'n egluro sut i'w ateb.

Mae nifer o'r cwestiynau yn cychwyn gyda dewis 'ie' neu 'na'. Os byddwch yn ticio 'na' gallwch symud ymlaen at y cwestiwn nesaf.

Mae mwyafswm geiriau ar gyfer rhai cwestiynau, er mwyn rhoi syniad i chi am y manylder sydd ei angen. Efallai y byddwch yn medru ateb y cwestiynau mewn llai o eiriau na'r mwyafswm.

Rydym yn diweddaru ein rhaglenni o bryd i'w gilydd, felly os yw'r ffurflen hon gennych ers dros dri mis, cysylltwch gyda ni neu ewch at y wefan i gadarnhau mai hon yw'r fersiwn ddiweddaraf. Cyhoeddwyd y fersiwn hon ym mis Mawrth 2012.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu anghenion cyfathrebu (megis Braille neu brint bras, rhaglen darllen sgrin, tap sain, iaith arwyddo neu iaith gymunedol) os gwelwch yn dda:

- ewch at ein gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk
- ffoniwch ein llinell gymorth: 0300 123 0735
- anfonwch ebost atom: ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
- cysylltwch drwy ddefnyddio llinell destun os oes gennych nam ar eich clyw: 0845 6 02 16 59

Ynglŷn â'r ffurflen

Os ydych wedi lawr lwytho'r ffurflen yma o'n gwefan neu wedi ei dderbyn dros ebost gallwch deipio yn uniongyrhcol ac arbed eich atebion.

Dylech arbed y ffurflen ar eich cyfrifiadur eich hun yn gyntaf ac mae'n rhaid fod gennych fersiwn 7, neu uwch o Adobe Acrobat.

Rydym wedi cynhyrchu nodyn cymorth Adobe Reader, y gallwch ei gael o'n llinell gymorth.

Ni allwch newid unrhyw ran o'r cwestiynau na'r ffurflen. Os byddwch yn gwneud hynny, ni fyddwn yn derbyn eich cais.

Os ydych yn defnyddio copi caled o'r ffurflen ysgrifennwch yn glir mewn mewn inc du neu deip. Peidiwch â defnyddio hylif cywirio neu bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd.

Anfon eich cais

Mae'n well gennym dderbyn ceisiadau drwy ebost, ond byddwn hefyd yn eu derbyn drwy'r post.

Pan fydd eich ffurflen gais wedi'i chwblhau, anfonwch drwy ebost at:

ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk

Rhowch enw eich sefydliad fel testun i'ch ebost. Byddwch yn derbyn ebost awtomatig gennym yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais.

Neu anfonwch eich cais at:

2il Lawr, Tŷ Ladywell
Y Drenewydd
Powys
SY16 1JB

Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau eraill na llythyr. Os fydd angen mwy o wybodaeth byddwn yn gofyn amdano yn ystod ein hasesiad.

Cadarnhau bod eich cais yn gyflawn

Cyn i chi anfon eich cais atom, sicrhewch eich bod wedi ateb bob cwestiwn perthnasol.

Rhaid i sefydliadau gwirfoddol neu gymunedol ateb bob cwestiwn ac eithrio 2.1 a 2.3.

Rhaid i ysgolion ateb bob cwestiwn ac eithrio 2.1 a 2.3.

Rhaid i gynghorau tref a chymuned ateb bob cwestiwn ac eithrio 2.1, 2.2 a 2.3.

Rhaid i gyrff iechyd ateb bob cwestiwn ac eithrio 2.1 a 2.2.

Rhan un
Ynglŷn â'ch sefydliad

1. Beth yw enw a chyfeiriad eich sefydliad?

Enw'r sefydliad

Cyfeiriad y sefydliad

Côd post

Nodiadau cynorthwyol

Rhowch yr enw llawn fel ag y mae'n ymddangos ar eich dogfen lywodraethol.

Rhowch brif gyfeiriad neu gyfeiriad cofrestredig eich sefydliad, gan gynnwys côd post.

2. Pa fath o sefydliad ydych chi?

- ☐ Sefydliad gwirfoddol neu gymunedol
  ewch at gwestiwn 2.1
- ☐ Ysgol
  ewch at gwestiwn 2.2
- ☐ Corff iechyd
  ewch at gwestiwn 2.3
- ☐ Cyngor tref neu gymuned
  ewch at gwestiwn 3

Rhowch dic mewn **un** blwch yn unig yna ewch at y cwestiwn perthnasol nesaf.

Eglurwn yr hyn a olygir drwy ddweud sefydliad gwirfoddol a chymunedol ar dudalen 8 ein canllaw i ymgeiswyr.

2.1 Sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn unig

a) A ydych yn elusen gofrestredig?

Na ☐ Ydym ☐

Os ydych, beth yw eich rhif cofrestru?

b) A ydych yn gwmni cyfyngedig drwy warant?

Na ☐ Ydym ☐

Os ydych, beth yw rhif eich cwmni?

Atebwch rannau a) i dd) o'r cwestiwn os ticiwyd sefydliad gwirfoddol neu gymunedol, yna ewch at gwestiwn 3.

Wrth ddweud 'elusen gofrestredig' rydym yn golygu wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau.

Dywedwch wrthym os yw eich sefydliad yn gorfforedig fel cwmni cyfyngedig drwy warant.

c) Pryd cychwynnodd eich sefydliad?

Mis Blwyddyn

ch) Faint o bobl sydd ar gorff llywodraethol neu fwrdd cyfarwyddwyr eich sefydliad?

d) A ydych yn gangen o sefydliad mwy?

Na Ydym

Os ydych, beth yw enw'r sefydliad mwy?

dd) A oes unrhyw gyfyngiad ar y rhai all ymuno gyda'ch sefydliad?

Na Oes

Os oes, beth ydynt a pham (mwyafswm 50 gair)

Rhowch y mis a'r flwyddyn.

Rhowch gyfanswm nifer y bobl ar hyn o bryd ar eich corff llywodraethol neu fwrdd cyfarwyddwyr. Cyfeiriwch at 'Pwy all ymgeisio' yn ein Canllaw i ymgeiswyr am eglurhad pellach.

Os ydych yn gangen o sefydliad arall sydd â rheolaeth weinyddol ac ariannol drosoch, gall fod ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol os byddwn yn rhoi grant i chi

Os oes aelodaeth gan eich sefydliad, disgwyliwn iddo fod yn agored i bawb ymuno oni bai bod modd i chi ddarparu rheswm da i'r gwrthwyneb. Byddwn fel rheol yn ystyried cynnig ac eilio yn annerbyniol ac rydym yn disgwyl bod hawl apelio gan unrhyw un sy'n cael ei wrthod.

2.2 Ysgolion yn unig

Pa fath o ysgol ydych chi?

A oes gennych gyfeirnod yr Adran dros Addysg?

Na Oes

Os oes, beth yw'r rhif cyfeirnod

Atebwch y cwestiwn hwn os ticiwyd ysgol, yna ewch at gwestiwn 3

Nodwch y math o ysgol, e.e. Cymunedol, Sylfaenol neu Wirfoddol

2.3 Cyrff iechyd yn unig

Pa fath o gorff iechyd ydych chi?

3. A oes gan eich sefydliad wefan?

Na ☐ Oes ☐

Os oes, beth yw cyfeiriad y wefan?

4. A yw eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu yn cyflawni ein gofynion?

Na ☐ Ydi ☐

Os ydi, rhowch y manylion canlynol am y cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu y byddwn yn talu'r grant i mewn iddo:

Enw'r banc neu gymdeithas adeiladu lle mae eich cyfrif

Enw eich cyfrif (enw'r sefydliad ar eich datganiadau)

Rhif cyfrif

Côd didoli

Rhif rôl cymdeithas adeiladu (os yn briodol)

Atebwch y cwestiwn hwn os ticiwyd corff iechyd, yna ewch at gwestiwn 3.

Pa fath o sefydliad iechyd, e.e. Ymddiriedolaeth GIC/Bwrdd Iechyd Lleol.

Os oes gennych wefan, rhowch gyfeiriad y dudalen gartref i ni.

Rydym yn egluro ein gofynion ar dudalen 21 ein canllaw i ymgeiswyr. I dderbyn grant rhaid i chi fedru ticio 'ydi' a darparu'r wybodaeth yr ydym yn gofyn amdano os byddwn yn cynnig grant. Os byddwch yn ticio 'na' byddwn yn gwrthod eich cais.

Rhaid i'ch cyfrif fod yn enw'r sefydliad sy'n ymgeisio am grant ac a fydd yn cyflawni'r prosiect. Mae angen o leiaf dau berson i lofnodi bob siec neu i godi arian. Os oes unrhyw lofnodwyr yn perthyn i'w gilydd neu'n byw yn yr un cyfeiriad bydd angen cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth eich banc neu gymdeithas adeiladu na all y bobl hyn awdurdodi'r un taliadau.

Os ydych yn ysgol, mae cyfrif banc awdurdod lleol hefyd yn dderbyniol.

5. Rhowch grynodeb o'ch cyfrifon diweddaraf

A yw'r ffigurau isod yn:

☐ Wybodaeth o'r cyfrifon diweddaraf a gymeradwywyd gan eich sefydliad

neu

☐ Ragamcan gan bod eich sefydliad yn iau na 15 mis.

Blwyddyn yn dod i ben: Dydd/Mis/Blwyddyn	
Cyfanswm incwm y flwyddyn (A)	£
Cyfanswm gwariant y flwyddyn (B)	£
Gweddill neu ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn (A–B)	£
Cyfanswm arbedion neu weddill ar ddiwedd y flwyddyn	£

6. A yw eich sefydliad wedi cofrestru ar gyfer TAW?

Na ☐ Ydi ☐

Os ydi, beth yw eich rhif TAW?

Os yw eich sefydliad wedi bodoli am lai na 15 mis, efallai na fedrwch roi'r wybodaeth hon i ni. Yn hytrach, byddwn yn derbyn rhagamcaniad ariannol 12 mis ar gyfer y flwyddyn pan fyddwch yn gwario'r grant. Cofiwch gynnwys y swm yr ydych yn gofyn amdano oddi wrth Arian i Bawb yn eich rhagamcaniad.

Gall eich blwyddyn ariannol fod am unrhyw 12 mis olynol.

Dylai hyn gynnwys yr holl incwm mae eich sefydliad wedi ei dderbyn a bob eitem o wariant ar gyfer eich blwyddyn ariannol ddiwethaf. Ar gyfer ysgolion, dylai gynnwys eich holl gyllideb ysgol.

Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW gallwch ymgeisio am gostau TAW anadferadwy yn unig.

7. A yw'ch sefydliad wedi ymgeisio am grant Loteri o'r blaen?

Na ☐ Do ☐

Os do, rhowch enw'r dosbarthwr loteri yr ymgeisiwyd atynt a chyfeirnod eich cais mwyaf diweddar atynt.

Enw'r dosbarthwr Loteri	Rhif cyfeirio

8. Pwy yw'r prif gyswllt ar gyfer y cais hwn?

Teitl ☐ Enwau cyntaf (yn llawn)

Cyfenw

Safle yn y sefydliad

Dyddiad geni

Cyfeiriad

Côd post

Mae hyn yn berthnasol i unrhyw ddosbarthwr Loteri, nid Cronfa Loteri Fawr neu Arian i Bawb yn unig.

Rhowch gyfeirnod eich cais diweddaraf i bob dosbarthwr, hyd yn oed os oedd yn aflwyddiannus.

Mae angen y wybodaeth hon hyd yn oed os oedd eich cais diweddaraf gryn dipyn o amser yn ôl.

Os nad ydych yn gwybod beth oedd y cyfeirnod, nodwch 'anhysbys' yn y blwch

Rhaid mai dyma'r person sy'n cyflwyno'r cais. Dylent fod yn berson o'ch sefydliad a all siarad am eich prosiect ac y gallwn gysylltu ag ef yn ystod oriau swyddfa. Mae'n rhaid iddynt fod dros ddeunaw oed. O ran ysgolion, mae'n rhaid i rywun a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ysgol gyflwyno'r cais (er enghraifft, athro/athrawes neu weinyddwr).

Mae'r dyddiad geni a'r cyfeiriad yn ein cynorthwyo i atal a chanfod twyll.

Ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, rhaid i chi roi eich cyfeiriad cartref. Ar gyfer ysgolion, cyrff iechyd a chynghorau tref neu gymuned rhowch eich cyfeiriad busnes (neu nodwch 'yr un fath â chwestiwn 1' os yn briodol).

Rhif ffôn: Dydd

Rhif ffôn: Fin nos

Rhaid i o leiaf un o'r rhifau ffôn fod yn linell ddaearol.

Cyfeiriad e-bost

Pa gyfeiriad ddylid ei ddefnyddio ar gyfer gohebiaeth?

Ticiwch un blwch yn unig.

☐ Prif gyfeiriad y sefydliad yng nghwestiwn 1.

☐ Y cyfeiriad yn y cwestiwn hwn.

Pa iaith ddylid defnyddio?

Gadewch i ni wybod eich dewis iaith.

☐ Cymraeg

☐ Saesneg

A oes unrhyw anghenion cyfathrebu?

Gall hyn fod yn linell destun, iaith arwyddo, print bras, darllenydd sgrin, tap sain, Braille neu iaith gymunedol.

Na ☐ Oes ☐

Os oes, beth yw eich anghenion cyfathrebu (mwyafswm 20 gair)

9. Pwy yw'r uwch gyswllt ar gyfer y cais hwn?

Teitl

Enwau cyntaf (yn llawn)

Cyfenw

Safle yn y sefydliad

Dyddiad geni

Cyfeiriad

Côd post

Rhif ffôn: Dydd

Rhif ffôn: Fin nos

Cyfeiriad ebost

Os oes angen ysgrifennu atynt, pa gyfeiriad dylid defnyddio?

- ☐ Y cyfeiriad ebost yn y cwestiwn hwn.
- ☐ Y cyfeiriad yn y cwestiwn hwn.

Pa iaith ddylid defnyddio?

- ☐ Cymraeg
- ☐ Saesneg

A oes gan eich uwch gyswllt unrhyw anghenion cyfathrebu?

Na ☐ Oes ☐

Os oes, beth ydynt? (mwyafswm 20 gair)

Ar gyfer mudiadau gwirfoddol a chymunedol mae'n rhaid mai hwn yw eich cadeirydd, ysgrifennydd, trysorydd neu aelod uwch arall o'ch corff llywodraethu. Mae'n rhaid iddynt fod dros ddeunaw oed.

Ar gyfer cwmnïau, mae'n rhaid iddo fod yn Gyfarwyddwr neu ysgrifennydd y Cwmni.

Ar gyfer mudiadau sy'n elusen gofrestredig ac yn gwmni mae'n rhaid iddo fod yn Gyfarwyddwr neu ysgrifennydd y Cwmni.

Ar gyfer ysgolion mae'n rhaid mai hwn yw eich pennaeth.

Ar gyfer cynghorau tref neu blwyf mae'n rhaid mai hwn yw clerc eich cyngor.

Ar gyfer cyrff iechyd mae'n rhaid mai hwn yw eich prif weithredwr neu gyfarwyddwr.

Mae'r dyddiad geni a'r cyfeiriad yn ein helpu i atal a chanfod twyll.

Rhaid i'r uwch gyswllt fod yn berson gwahanol i brif gyswllt cwestiwn 8.

Rhaid i o leiaf un o'r rhifau ffôn fod yn linell ddaearol.

Ticiwch un blwch yn unig. Efallai na fyddwn yn ysgrifennu at eich uwch gyswllt ond rhag ofn, dywedwch a fyddai'n well ganddynt dderbyn ebyst neu lythyrau.

Nodwch eu dewis iaith.

Gall hyn fod yn linell destun, iaith arwyddo, print bras, darllenydd sgrin, tap sain, Braille neu iaith gymunedol.

Rhan dau
Ynglŷn â'ch prosiect

10. Beth yw enw eich prosiect?
(mwyafswm 10 gair)

Rhowch deitl byr y gallwn eiddefnyddio at ddibenion cyhoeddusrwydd. Ceisiwch sicrhau ei fod yn unigryw i'ch prosiect.

11. Pa brosiectau neu weithgareddau yr hoffech i ni eu hariannu?
(mwyafswm 300 gair)

Disgrifiwch eich prosiect. Wrth ddweud 'prosiect' rydym yn golygu'r digwyddiad neu weithgareddau yr ydych yn bwriadu eu cyflawni gan ddefnyddio ein grant.

Byddwch yn benodol am yr hyn y byddwch yn ei wneud, sut y byddwch yn ei gyflawni ac ar beth y byddwch yn gwario'r grant.

Mae gwybodaeth fanylach am yr hyn y gallwn ac na allwn ei ariannu ar dudalen 10 y canllaw ymgeiswyr. Darllenwch hwn yn ofalus er mwyn cadarnhau y gallwn ariannu'r hyn yr ydych am ei wneud.

12. Pryd fydd eich prosiect yn digwydd?

Dyddiad cychwyn (mis a blwyddyn)

Dyddiad gorffen (mis a blwyddyn)

A yw'r dyddiad cychwyn yn:

Gaeth ☐ Hyblyg ☐

Dylai eich dyddiad cychwyn fod o leiaf dri mis ar ôl i chi anfon eich cais atom.

Ni ddylai'r dyddiad gorffen fod dros 15 mis ar ôl i chi anfon eich cais atom.

Os yw eich dyddiad cychwyn yn hyblyg, nodwch y dyddiad cynharaf y gall eich prosiect gychwyn.

13. Ble mae'r bobl a fydd yn elwa o'ch prosiect wedi'u lleoli?

Ardal awdurdod lleol

Côd post llawn

Nodwch yr ardal awdurdod lleol a'r côd post lle bydd eich prosiect neu weithgareddau yn digwydd.

Os yw eich prosiect yn cwmpasu nifer o lefydd, rhowch yr ardal awdurdod lleol a'r côd post lle bydd y mwyafrif o bobl yn elwa.

Os nad oes côd post ar gyfer ardal eich prosiect, defnyddiwch un stryd gyfagos.

14. Faint fydd eich prosiect yn costio?

a) Faint bydd bob eitem neu weithgaredd yn costio a faint ydych yn gofyn amdano gan Arian i Bawb?

Eitem neu weithgaredd	A Cyfanswm Cost	B Swm Cais Arian i Bawb
	£	£
	£	£
	£	£
	£	£
	£	£
	£	£
	£	£
	£	£
	£	£
Cyfansymiau	**£**	**£**

Rhestrwch yr holl eitemau neu weithgareddau sy'n rhan o'ch prosiect. Cofiwch gynnwys popeth sydd ei angen ar gyfer y prosiect, hyd yn oed os nad ydych yn gofyn i ni ei ariannu.

Rhowch gyfanswm cost bob eitem neu weithgaredd yng ngholofn A a nodwch faint yr ydych ei eisiau oddi wrthym yng ngholofn B.

Os ydych am i ni ariannu holl gostau eich prosiect, bydd y ffigurau yng ngholofn A a cholofn B yr un fath.

Sicrhewch bod y costau'n gywir ac wedi'u seilio ar ddyfynbrisiau lle bo'n bosibl.

Ni ddylech gynnwys unrhyw TAW y gallwch ei hawlio yn ôl oddi wrth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Rhaid i'r cyfanswm oddi wrth Arian i Bawb fod rhwng £500 a £5,000.

Sicrhewch eich bod wedi adio'r cyfansymiau'n gywir.

b) Os yw'r cyfanswm yng ngholofn A yn uwch na chyfanswm colofn B, o ble fydd gweddill yr arian yn dod (mwyafswm 100 gair)?

c) Sut ydych wedi cyfrifo eich costau (mwyafswm 100 gair)?

Os oes angen i chi godi arian o ffynonellau eraill, rhaid i chi fedru dangos y bydd modd i chi wneud hyn ac na fydd yn effeithio ar eich prosiect na'n achosi oedi.

Gadewch i ni wybod os ydych eisoes wedi codi arian neu yn bwriadu defnyddio arian wrth gefn neu gynilion. Os ydych wedi anfon cais at arianwyr eraill ac heb gael ateb, gadewch i ni wybod pwy ydynt a phryd yr ydych yn disgwyl ateb.

Os ydych am i ni ariannu'ch holl gostau prosiect ac nad ydych yn cyfrannu arian o unrhyw ffynhonnell arall nodwch 'amherthnasol'.

Gadewch i ni wybod os ydych wedi defnyddio dyfynbrisiau, amcan brisiau, prisiau cyflenwyr neu brofiad o brosiectau eraill.

Os ydych wedi gwneud unrhyw ragdybiaethau wrth gyfrifo'r costau, gadewch i ni wybod beth ydynt.

15. A yw eich prosiect yn cynnwys gwaith adeiladu neu dirlunio?

Na ☐ Ydi ☐

Os ydi, rhaid i chi ateb a) a b) isod

a) A yw eich sefydliad:

☐ berchen rhydd-ddaliad y tir neu adeilad

neu

☐ yn dal les am o leiaf bum mlynedd, na ellir ei derfynu gan y perchennog?

b) A oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer eich prosiect?

☐ Nid oes angen caniatâd cynllunio

neu

☐ Mae angen caniatâd cynllunio ac mae wedi ei roi

Os yw eich prosiect yn cynnwys gwaith adeiladu neu dirlunio rhaid i rydd-ddaliad y tir neu adeilad fod yn eiddo i chi, neu fod gennych les na ellir ei derfynu gan y perchennog am o leiaf bum mlynedd.

Efallai bydd angen i chi anfon mwy o wybodaeth am berchnogaeth y tir os byddwn yn cynnig grant i chi.

Os oes angen caniatâd cynllunio, rhaid i chi ei dderbyn cyn ymgeisio.

Efallai y bydd angen i chi anfon cadarnhad nad oes angen caniatâd cynllunio, neu fod ei angen a'i fod wedi'i roi.

16. A yw eich prosiect yn cynnwys gwaith gyda phlant, pobl ifanc dan 18 oed neu oedolion bregus?

Na ☐ Ydi ☐

Os ydi, fel isafswm disgwyliwn i chi:

- fod a pholisïau diogelwch mewn lle sy'n addas i waith eich sefydliad a'r prosiect yr ydych am i ni ei ariannu
- adolygu eich polisïau diogelwch o leiaf yn flynyddol
- gwblhau proses recriwtio a dewis manwl ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio â phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus, yn cynnwys gwirio cofnodion troseddol a chael geirda
- cyflawni gwiriadau cofnodion troseddol newydd bob tair blynedd

Eich cyfrifoldeb chi yw cael polisïau a threfniadau derbyniol ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion bregus, a gallwn ofyn am eu harchwilio ar unrhyw adeg.

- yn dilyn arweiniad statudol neu arfer da ar gymharebau staff neu wirfoddolwyr i blant, pobl ifanc neu oedolion bregus
- rhoi hyfforddiant diogelwch plant a iechyd a diogelwch neu arweiniad i staff a gwirfoddolwyr
- cynnal asesiad risg, os yn addas
- diogelu yswiriant ychwanegol, os yn addas.

A yw'ch sefydliad yn cwrdd â'r gofynion yma

Na ☐ Ydi ☐

Os yw'ch sefydliad wedi ei gofrestru gyda neu yn cael ei arolygu gan gyrff sy'n gorfodi trefniadau diogelwch (megis Estyn ac Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) rhowch y manylion isod, yn cynnwys unrhyw rifau cyfeirio.

Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am wybodaeth bellach gan unrhyw gyrff yr ydych wedi eich cofrestru â, neu yn cael eich arolygu gan.

17. A oes gennych unrhyw rai o'r canlynol?

Atebwch a) i ch).

a) Yswiriant atebolrwydd cyhoeddusb) Na ☐ Oes ☐

b) Cymwysterau arweinwyr Na ☐ Oes ☐

c) Perthynas gyda chorff llywodraethol Na ☐ Oes ☐

ch) Yswiriant arall Na ☐ Oes ☐

Gan ddibynnu ar y math o brosiect, gall fod angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu arweinwyr cymwys.

Rhaid i'ch sefydliad fod yn rhan o gorff llywodraethol perthnasol neu'n gweithio gydag arweinwyr neu hyfforddwyr llawn gymwysedig os yw eich prosiect yn cynnwys camp neu weithgaredd peryglus.

Os atebwyd oes i unrhyw un o'r uchod, rhowch fwy o fanylion (mwyafswm 100 gair)

Rhan tri
Y gwahaniaeth yn sgil eich prosiect

18. Beth yw'r angen a nodwyd gennych ac sut fydd eich prosiect yn ei gwrdd?
(mwyafswm 400 gair)

Sicrhewch eich bod yn:

- ein hysbysu am anghenion y bobl a fydd yn defnyddio eich prosiect
- egluro sut yr ydych yn gwybod am yr anghenion a beth a ddysgwyd o drafod eich cynlluniau gyda hwy
- dangos sut y bydd eich prosiect neu weithgareddau yn cyflawni'r angen yr ydych wedi ei nodi.

Dyma rai ffyrdd y gallwch ddangos yr angen am eich prosiect.

- Trefnu cyfarfod ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb yn eich prosiect.
- Cynnal arolwg o'r bobl sy'n defnyddio eich gwasanaeth neu'r rhai a allai ei ddefnyddio.
- Cadw rhestr aros o bobl sydd am gyfranogi yn eich gweithgareddau neu ddefnyddio'ch gwasanaeth.
- Darganfod os oes diffyg o'ch math o gyfleuster, gwasanaeth neu weithgaredd yn eich ardal leol ac a fyddai bobl yn ei ddefnyddio pe bai ar gael.
- Ymchwilio i ystadegau am bobl a fyddai'n elwa o'ch prosiect
- Darganfod os yw eich prosiect yn cefnogi unrhyw strategaethau lleol neu genedlaethol.
- Gwerthuso prosiectau blaenorol neu geisio adborth ar brosiect peilot.

19. a) Pa rai o'n hamcanion fydd eich prosiect yn eu cyflawni?

Ticiwch yr amcanion y bydd eich prosiect yn eu cyflawni.

- ☐ **Cefnogi gweithgaredd cymunedol.**
- ☐ **Ehangu mynediad a chyfranogiad.**
- ☐ **Cynyddu sgiliau a chreadigrwydd.**
- ☐ **Gwella ansawdd bywyd.**

Gadewch i ni wybod sut y bydd eich prosiect yn cyflawni'r holl amcanion a nodwyd (mwyafswm 400 gair i gyd).

Mae Arian i Bawb yn ceisio:

Cefnogi gweithgaredd cymunedol - drwy helpu cymunedau i gyflawni eu hanghenion drwy weithredu gwirfoddol, prosiectau hunan gymorth, cyfleusterau neu ddigwyddiadau lleol. (Drwy ddweud cymunedau golygir pobl mewn ardal leol neu bobl sy'n rhannu diddordeb neu angen.)

Ehangu mynediad a chyfranogiad – drwy annog mwy o bobl i gyfranogi'n weithredol mewn grwpiau a phrosiectau lleol, a thrwy gefnogi gweithgareddau sy'n ceisio bod yn agored ac yn hygyrch i bawb sy'n dymuno cyfranogi.

Cynyddu sgiliau a chreadigrwydd – drwy gefnogi gweithgareddau sy'n cynorthwyo i ddatblygu pobl a sefydliadau, gwella sgiliau a chodi safonau

Gwella ansawdd bywyd - drwy gefnogi prosiectau lleol sy'n gwella cyfleoedd, iechyd, lles, amgylchedd neu gyfleusterau lleol, yn arbennig ar gyfer y bobl mwyaf difreintiedig yn y gymdeithas.

Rhaid i chi ddangos sut mae eich prosiect yn cyflawni o leiaf un o'r amcanion hyn er mwyn cael eich ystyried am grant.

19. b) A fydd eich prosiect yn cyflawni unrhyw rai o'n blaenoriaethau?

Na ☐ Bydd ☐

Os bydd, ticiwch y blaenoriaethau y bydd eich prosiect yn eu cyflawni.

- ☐ prosiectau sy'n cynnwys cymunedau, yn uno pobl o wahanol oed, profiadau neu gefndir a diwylliant
- ☐ sefydliadau newydd
- ☐ sefydliadau ag incwm blynyddol llai na £15,000
- ☐ prosiectau sy'n darparu gwasanaethau neu weithgareddau newydd i gymunedau, lle gellir dangos nad ydynt yn bodoli
- ☐ sefydliadau sy'n cael eu rheoli gan bobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys ffoaduriaid, ceiswyr lloches a Theithwyr
- ☐ prosiectau sy'n gwella gallu pobl ag anabledd i gyfranogi mewn gweithgareddau
- ☐ prosiectau sy'n hyrwyddo dulliau newydd o weithio

Gadewch i ni wybod sut y bydd eich prosiect yn cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd
(mwyafswm 200 gair)

Ein blaenoriaethau yw'r bobl, cymunedau ac ardaloedd yr ydym am eu cefnogi'n arbennig.

Nid oes angen i chi gyflawni unrhyw flaenoriaethau er mwyn cael eich ystyried am grant ond gall eich cais fod yn gryfach os ydych yn gwneud hynny.

Os ydych yn nodi 'na', mae hyn yn dweud wrthym y gall eich prosiect fod yn agored i rai o'n blaenoriaethau, ond nad ydych yn ei ganolbwyntio yn benodol ar unrhyw un ohonynt.

Os ydych yn nodi 'bydd' mae hyn yn golygu y gall eich prosiect fod yn arbennig o berthnasol i un neu fwy o'n blaenoriaethau.

20. Sut byddwch yn sicrhau bod ystod mor eang ag sy'n bosibl o bobl yn elwa?

(mwyafswm 300 gair)

- Dywedwch faint o bobl y bydd eich prosiect yn cyrraedd atynt ac eglurwch y gwahanol ffyrdd y byddant yn cyfranogi neu'n elwa ohono.
- Dywedwch wrthym sut byddwch yn sicrhau y bydd modd i siaradwyr Cymraeg eich cymuned gael mynediad at y prosiect
- Dywedwch wrthym sut fydd eich prosiect yn helpu i wella eich cymuned leol a bywydau'r bobl mewn angen mwyaf.
- Eglurwch beth fyddwch yn ei wneud i sicrhau bod pobl o wahanol gefndir yn gwybod am eich prosiect a sut i elwa ohono.
- Os ydych wedi clustnodi unrhyw grwpiau a allai elwa ond sy'n llai tebygol o gyfranogi, eglurwch y rheswm dros hyn a beth y byddwch yn ei wneud i'w daclo.
- Os bydd eich prosiect yn cynnwys y gymuned ehangach, eglurwch sut.
- Os ydych yn bwriadu hyrwyddo neu dynnu sylw at eich prosiect, eglurwch sut y byddwch yn gwneud hyn.
- Os ydych yn bwriadu cyfyngu ar y sawl a all gyfranogi yn eich prosiect, dylech egluro pam, er mwyn i ni ystyried a yw'n dderbyniol.

Rhan pedwar
Gwybodaeth monitro rhaglenni

21. Cefndir ethnig

Na fydd Ewch i 22 ☐ Bydd Ticiwch hyd at dri blwch isod ☐

Os ydi, ticiwch hyd at dri chategori i nodi cefndir ethnig y bobl a fydd yn elwa.

Gwyn

- ☐ Lloegr/Yr Alban Cymru/Gogledd Iwerddon/DU
- ☐ Iwerddon
- ☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- ☐ Unrhyw gefndir Gwyn arall

Grwpiau ethnig Cymysg/Lluosog

- ☐ Cefndir ethnig cymysg

Asiaidd/Asiaidd DU

- ☐ Indiaidd
- ☐ Pacistanaidd
- ☐ Bangladeshaidd
- ☐ Tsieineaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall

Du/Affricanaidd/ Caribïaidd/Du o'r DU

- ☐ Affricanaidd
- ☐ Caribïaidd
- ☐ Unrhyw gefndir Du Affricanaidd/ Caribïaidd arall

Grŵp ethnig arall

- ☐ Arabaidd
- ☐ Unrhyw grŵp ethnig arall

Rydym am i chi ddweud wrthym pwy fydd yn elwa fwyaf o'ch prosiect. Wrth ateb pob cwestiwn dylech ystyried cyfansoddiad y boblogaeth yn yr ardal lle byddwch yn cyflwyno eich prosiect a phwy, yn eich barn chi, sydd fwyaf tebygol o'i ddefnyddio neu gymryd rhan ynddo.

Os byddwch yn ticio 'Na fydd', mae hyn yn golygu nad ydych yn disgwyl i unrhyw grŵp neu grwpiau elwa'n fwy na grwpiau eraill a restrir. Os byddwch yn ticio 'Byddant', mae'n golygu y bydd eich prosiect yn arbennig o berthnasol i rai o'r grwpiau a restrir.

Yn bennaf gofynnwn y cwestiynau hyn i ddeall sut mae ein hariannu'n cael ei roi ar led. Nid oes unrhyw atebion model. Bydd yr wybodaeth a roddwch i ni'n dibynnu ar ddiben eich prosiect.

Byddwn yn croesgyfeirio'r wybodaeth a ddarparwch yn erbyn gwybodaeth arall a ddarperir yn eich ffurflen ymgeisio. Os oes unrhyw anghysondebau mae'n bosib y byddwn yn gofyn am fwy o wybodaeth gennych.

22. Rhyw

Na fydd Ewch i 23 ☐ Bydd Ticiwch pa ryw ☐

Gwryw ☐ Benyw ☐

Mae rhestr y cefndiroedd ethnig a ddefnyddiwn wedi'i chymryd o Gyfrifiad 2011. Cofiwch fod gan bawb gefndir ethnig. Dylid dewis y categori 'cefndir ethnig cymysg' dim ond os bydd eich prosiect o fudd pennaf i bobl y mae eu rhieni'n dod o ddau neu fwy o gefndiroedd ethnig. Ni ddylid ei ddewis os bydd eich prosiect o fudd i bobl o ystod o gefndiroedd ethnig.

23. Oedran

A fydd eich prosiect o fudd pennaf i bobl o grŵp oedran penodol?

Na fydd Ewch i 24 ☐ Bydd Ticiwch hyd at ddau flwch ☐

0-24 oed ☐ 25-64 oed ☐ 65+ oed ☐

24. Anabledd

A fydd eich prosiect o fudd pennaf i bobl anabl?

Na fydd ☐ Bydd ☐

Dylid dewis y categori 'pobl anabl' os bydd eich prosiect o fudd pennaf i bobl â nam corfforol, meddyliol, dysgu, synhwyraidd neu wybyddol.

25. Crefydd neu gred

A fydd eich prosiect o fudd pennaf i bobl o grefydd neu gred benodol?

Na fydd Ewch i 26 ☐ Bydd Ticiwch un blwch isod yn unig ☐

- ☐ Dim crefydd
- ☐ Cristnogaeth
- ☐ Bwdhaeth
- ☐ Hindŵaeth
- ☐ Iddewiaeth
- ☐ Moslemiaeth
- ☐ Sikhiaeth
- ☐ Crefydd arall

26. Tueddfryd rhywiol

A fydd eich prosiect o fudd pennaf i lesbiaid, dynion hoyw neu bobl ddeurywiol?

Na fydd ☐ Bydd ☐

27. Iaith Gymraeg

☐ Pawb

☐ Mwy na hanner

☐ Llai na hanner

☐ Neb

Rhan pump – Cwblhau eich cais

Rhaid i chi roi tic ym **mhob** blwch isod i gadarnhau:

- ☐ eich bod wedi ateb yr holl gwestiynau perthnasol yn y ffurflen gais hon.
- ☐ eich bod chi (y prif gyswllt a enwir yng nghwestiwn 8 o'r ffurflen gais hon) wedi'ch awdurdodi i ymgeisio am grant oddi wrthym (Cronfa Loteri Fawr) ar ran eich sefydliad.
- ☐ eich bod yn deall os byddwch yn gwneud unrhyw ddatganiadau camarweiniol difrifol (os yn fwriadol neu yn ddamweiniol) yn ystod unrhyw gam o'r broses ymgeisio, neu yn celu gwybodaeth, y gall hyn wneud eich cais yn annilys ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw arian i ni.
- ☐ bod eich sefydliad yn cyflawni ein gofynion o ran cymhwyster fel a nodwyd yn ein canllaw ymgeiswyr Arian i Bawb dan 'Pwy all ymgeisio' a bod ganddynt rym cyfreithiol i sefydlu a chyflawni'r prosiect a ddisgrifir yn y ffurflen gais hon.
- ☐ os fyddwn yn gwneud cynnig amodol i chi byddwch yn anfon y dogfennau perthnasol a nodir yn ein canllaw ymgeiswyr Arian i Bawb dan 'Beth fyddwn yn gofyn i chi ei anfon atom?' o fewn 20 diwrnod gwaith ac rydych yn derbyn y gallwn dynnu unrhyw gynnig grant amodol yn ôl os nad ydych yn gwneud hynny.
- ☐ rydych yn deall eich rhwymedigaethau o dan Gynllun Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr.
- ☐ eich bod yn deall ac yn derbyn ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, y Deddfau Diogelu Data a Rhyddid gwybodaeth fel y nodir yn ein canllaw ymgeiswyr Arian i Bawb
- ☐ eich bod yn medru cydymffurfio gyda thelerau ac amodau grant Arian i Bawb, sydd ar gael ar ein gwefan www.arianibawb.org.uk

I ymgeisio am grant Arian i Bawb rhaid i chi roi tic ym **mhob** blwch.

Sicrhewch bod eich corff llywodraethol neu fwrdd cyfarwyddwyr yn gwybod am y cais hwn ac yn cytuno y gallwch ei anfon atom.

Rhaid i chi fedru cydymffurfio gyda'n telerau ac amodau os byddwn yn cynnig grant i chi. Dylech gadarnhau bod modd i chi wneud hynny cyn ymgeisio.

Gallwch gael copi o'n telerau ac amodau grant o'n gwefan www.arianibawb.org.uk neu gallwch ein ffonio neu anfon ebost a byddwn yn eu hanfon atoch.

Cyn i chi ymgeisio, gwnewch yn siŵr y gallwch ddarparu'r holl wybodaeth y byddwn o bosib yn gofyn amdano os byddwn yn rhoi cynnig grant amodol i chi. Mae hyn yn cael ei egluro yn 'Beth fyddwn yn gofyn i chi ei anfon atom' yn ein canllaw i ymgeiswyr.

Mae angen i chi gytuno y gallwn ddefnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni at ddiobenion atal a datgelu twyll ac y gallwn ei rhannu gyda dosbarthwyr eraill y Loteri, adrannau'r llywodraeth neu fudiadau ac unigolion eraill. Mae hyn wedi'i esbonio o dan 'Diogelu Data a Rhyddid gwybodaeth' yn ein canllaw i ymgeiswyr.

Hoffem anfon gwybodaeth am y Gronfa Loteri Fawr ac achosion da eraill y Loteri at eich prif gyswllt a enwir. Os byddai'n well gennych beidio â chytuno i dderbyn yr wybodaeth hon, ticiwch y blwch.

Byddem yn ddiolchgar petaech yn ein helpu i wella ein gwasanaeth i gwsmeriaid trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau megis ymchwil farchnata, arolygon neu brofi cynnyrch. Os byddai'n well gennych beidio â chytuno i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn ticiwch y blwch, fel arall mae'n bosib y byddwn yn trosglwyddo eich manylion i fudiadau sy'n gwneud y gwaith hwn ar ein rhan.

.